

Rheolaeth cyfiawnder

*“Pan oeddech yn gaeth i bechod, yr oeddech yn rhydd oddi wrth gyfiawnder.”
(adn. 20)*

Beth am ddarllen Rhufeiniaid 6:15–23 ac yna myfyrio

Yr ydym yn myfyrio ar y gwirionedd fod hunanddisgyblaeth yn rhywbeth y byddwn yn ei hadnabod wrth i Iesu gael rheolaeth ar ein bywyd. Wrth inni roi ein hunain fwyfwy iddo ef, yr ydym yn adnabod ei nerth ef fwyfwy, yn rheoli y rhannau hynny o'n bywyd sydd ar gyfeiliorn.

Fe fu yna amser pan y bu i minnau hefyd geisio byw y bywyd Cristnogol drwy hunanddisgyblaeth. Y gair allweddol yw y gair ‘hunan’, nid Crist. Yr oeddwn wedi cyrraedd fy ardegau ac wedi fy nwyn i fyny mewn teulu Cristnogol. Yr oeddwn yn sylweddoli nad oedd fy mywyd yr hyn a ddylai fod. Felly, bob dydd byddwn yn cychwyn gyda'r bwriad o gadw fy hunan rhag pechod, peidio â defnyddio iaith amhriodol, peidio dweud celwydd, peidio â dweud storïau amhriodol, ac yn y blaen, ond bob nos yr oeddwn yn gorfod cydnabod fy methiannau. Er nad oeddwn yn sylweddoli ar y pryd, y broblem oedd fy mod yn ceisio drwy hunanddisgyblaeth a hunanreolaeth ddarganfod rheolaeth Crist. Yr oeddwn wedi cael popeth o chwith. Sut mae'n bosibl i ewyllys dilywodraeth reoli hunan dilywodraeth? Ni all ewyllys afiach iachau enaid afiach. Yna, yn un ar bymtheg oed, ildiais fy mywyd i Iesu Grist a chychwyn perthynas o gariad ag ef, perthynas, a defnyddio geiriau gwraig y gŵr oedd yn dioddef o alcoholiaeth, a barodd fod pob cariad arall yn diflannu. Fe fu i mi ddarganfod, wrth i mi ganiatau i gariad Crist lenwi fy enaid, fy mod yn dymuno gwneud yr hyn yr oedd ef yn ei ddymuno ar fy nghyfer. Roedd yr hyn a fethais ei gyflawni ohonof fy hun yn cael ei gyflawni wrth i Grist ei gyflawni ynof.

Mae hunanreolaeth yn dod yn dasg haws wrth i gariad at Iesu ein nerthu. Mae'n hewyllys wedi ei chlymu wrth ein dymuniadau. Yr ydym bob amser yn gwneud y pethau hynny sydd yn ein plesio ni. Mae'r rhai hynny sydd am blesio Iesu yn darganfod grym hunanreolaeth yn edwino yn eu bywyd.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Rhuf. 6:1–14; 7:4–6; 8:1–17

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut mae pechod yn ein rheoli?
2. Sut mae cyfiawnder yn rheoli?

Gweddi

O Dad, rwyf am adnabod fy ewyllys fy hun. Nid mater o rym ewyllys yw rheolaeth ar yr hunan. Mae fy nymuniadau wedi eu staenio gan fy mhechod. Caniatâ i'm dymuniadau ganolbwyntio ar Iesu, yr un dibechod. Caniatâ i mi ei garu ef er mwyn i mi adnabod yr awydd i wneud yr hyn mae ef am i mi ei wneud. Amen.